

BWYTA'N DDA YN YSTOD CANCER

Eich helpu chi ymdopi â sgîl-effeithiau cyffredin
cancer a thriniaeth cancer



YNGLŶN Â'R CANLLAW HWN

Mae'r canllaw hwn ar gyfer pobl sy'n byw gyda chanser a allai fod yn cael trafferth bwyta neu yfed yn ôl yr arfer oherwydd sgîl-ffeithiau canser neu driniaeth.

Gall derbyn diagnosis canser a mynd trwy driniaeth fod yn amser arbennig o heriol. Rydyn ni yma i'ch cefnogi trwy ddarparu arweiniad ar sut i ymdopi â'r sgîl-ffeithiau hyn, er mwyn helpu i gefnogi eich lles a'ch adferiad.

Os ydych chi'n byw gyda chanser neu'n cael triniaeth canser, efallai na fyddwch chi'n gallu bwyta nac yfed yr hyn rydych chi wedi arfer ag ef, neu gymaint ohonno. Gall hyn fod yn anodd, yn enwedig os ydych chi bob amser wedi mwynhau eich bwyd a bellach yn gweld amseroedd bwyd yn heriol.

Os ydych chi'n colli pwysau neu'n cael trafferth bwyta, efallai y bydd angen i chi wneud rhai newidiadau i'ch deiet am gyfnod. Mae profiad pawb yn wahanol, felly ni fydd yr holl gyngor yn y canllaw hwn yn addas i chi, ond efallai y byddwch chi'n gweld rhai o'n hawgrymiadau yn ddefnyddiol.

Os ydych chi'n profi unrhyw symptomau neu sgîl-ffeithiau, trafodwch nhw gyda'ch tîm gofal canser. Yn ogystal â'u cyngor nhw, rydym yn gobeithio y bydd yr awgrymiadau a'r ryseitiai yn y canllaw hwn yn eich helpu chi ymdopi â'ch sgîl-ffeithiau, tra'n gwneud i chi deimlo ychydig yn well a'ch helpu chi fwynhau bwyd eto. Os ydych chi'n cael trafferth gyda'ch deiet ac nad ydych chi wedi gweld deietegydd, ystyriwch ofyn i'ch meddyg am atgyfeiriad.




Mae'r cyngor yn y canllaw hwn yn ddiogel i'r mwyafrif o oedolion sy'n byw gyda chanser. Fodd bynnag, os yw'n wahanol i gyngor eich tîm gofal canser, mae'n well dilyn eu cyngor nhw, gan y bydd yn cael ei deilwra i'ch anghenion chi. Er bod llawer o awgrymiadau yn y llyfryn hwn yn ddiogel, efallai na fyddant yn gweithio i bawb.



Efallai na fydd y canllaw hwn yn addas i'r rhai sy'n bwyta ychydig iawn, yn colli pwysau anfwriadol sylweddol neu yn derbyn gofal lliniarol. Os ydych chi'n dilyn deiet arbennig ar gyfer cyflyrau iechyd fel clefyd y galon, diabetes neu fethiant arenol, neu os ydych chi wedi cael colostomi neu ileostomi, efallai na fydd y canllaw hwn yn addas chwaith. Mae angen gwybodaeth a chynghor arbenigol.

Os ydych chi wedi cwblhau triniaeth neu wedi dychwelyd i fwyta'n arferol, mae ein gwefan wcrf.org yn cynnig gwybodaeth am fwyta'n iach a chadw'n heini, a allai fod yn fwy perthnasol i chi. Am fwy o adnoddau ar fyw gyda chanser, edrychwch ar gefn y canllaw hwn.



Mae'r llyfryn hwn wedi'i ysgrifennu gyda chefnogaeth deietegwyr o **Grŵp Arbenigol Oncoleg Cymdeithas Deieteg Prydain**, i sicrhau bod y wybodaeth yn seiliedig ar y dystiolaeth wyddonol ddiweddaraf a chynghor arbenigol ymarferol.

TUDALEN GYNNWYS

Cwestiynau cyffredin wedi'u hateb	6
Newidiadau pwysau ac egni	9
Colli pwysau	10
 Hwmws pupur coch wedi'i rostio gyda pita gwenith cyflawn	17
 Uwd banana gyda granola	18
 Enchiladas ffa coch	20
Rhoi pwysau ymlaen	22
 Penfras gyda brwsion garam masala	24
Blinder	26
 Fflapjacs banana a menyn cnau daear	29
 Moussaka cyw iâr	30
Newidiadau l'r geg a blas	32
Dim awydd bwyta	32
Problemau'r geg	34
 Smwddi ffrwythau sy'n llenwi	37
Newidiadau blas	38
 Dhal garlleg wedi'i rostio	40
Newidiadau i'r stumog a'r system dreulio	42
Cyfog (teimlo'n sâl)	42
 Compot afal a sinsir gydag iogwrt	44
Dolur rhydd	46
Gwynt	48

Rhwymedd	49
🍷 Taten bob felys gyda ffacbys mwg.....	51
🍷 Pot Pupur Caribiaidd gyda tofu.....	52
Cadw'n heini	54
Lleihau eich risg o haint.....	56
Rhagor o wybodaeth	58



Cefnogir gan:  **GIG**
CYMRU
NHS
WALES | Bwrdd Iechyd
Addysgu Powys
Powys Teaching
Health Board

Ffotograffiaeth y ryseitiau: Alan Langley (tudalennau 17, 50)), Clare Winfield (tudalennau 19, 24, 37), Matilda Bourne (tudalennau 21, 31, 53) and Christine Taylor (tudalennau 28, 41, 45).

CWESTIYNAU CYFFREDIN WEDI'U HATEB

Pan fyddwch chi'n mynd trwy driniaeth cancer, efallai y bydd gennych gwestiynau am yr hyn y dylech ei fwyta a'i yfed. Yma, rydym yn ateb rhai o'r cwestiynau mwyaf cyffredin am ddeiet yn ystod cancer a thriniaeth cancer.



Oes angen i mi ddilyn diet sy'n ymladd cancer neu ddeiet 'ffad'?

Mae deietau sy'n honni eu bod yn eich helpu chi ymladd yn erbyn cancer yn cael llawer o sylw yn y cyfryngau a gallant ymddangos yn apelgar iawn, ond nid oes unrhyw dystiolaeth wyddonol y gall dilyn unrhyw fath o ddeiet wella cancer neu ddisodli triniaethau cancer.

Gall cancer a thriniaeth cancer fod yn anodd ar eich corff. Yn ystod y cyfnod hwn, mae'n bwysig rhoi'r calorïau (egni) a'r maetholion sydd eu hangen i'ch corff. Mae rhai dietau 'ffad' yn awgrymu torri rhai bwydydd allan neu fwyta diet cyfyngol iawn, sy'n golygu efallai na fyddwch chi'n cael digon o faetholion i gefnogi'ch corff ar hyn o bryd. Dyna pam mae'n well bwyta diet iach, cytbwys lle bo hynny'n bosibl neu siarad â'ch tîm gofal cancer am fwy o gyngor.

A ddylwn i fod yn dilyn deiet fegan?

Nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod dilyn deiet fegan neu blanhigion yn darparu unrhyw fanteision yn ystod triniaeth cancer o'i gymharu â deiet sy'n cynnwys cig.

Fodd bynnag, gall cynnwys mwy o fwydydd sy'n seiliedig ar blanhigion yn eich deiet fel ffrwythau, llysiau a phylsiau (fel ffa, ffacbys a chorbys), gefnogi'ch iechyd trwy roi maetholion hanfodol i'ch corff fel fitaminau, mwynau a ffibr. Os ydych chi eisiau newid eich deiet, siaradwch â'ch tîm gofal cancer yn gyntaf bob amser. Gallant wneud yn siŵr eich bod chi'n dal i gael yr holl faetholion hanfodol sydd eu hangen ar eich corff.

A ddylwn i osgoi siwgr os oes gen i ganser?

Nid oes unrhyw dystiolaeth gref i ddangos y gall osgoi siwgr atal celloedd cancer rhag tyfu neu fod siwgr yn achosi cancer yn uniongyrchol. Os ydych chi'n dewis cyfyngu ar faint o siwgr rydych chi'n ei fwyta, efallai y byddwch hefyd yn cyfyngu ar faint o ffrwythau a llysiau rydych chi'n eu bwyta, ac mae bwyta amrywiaeth o ffrwythau a llysiau yn darparu nifer o fitaminau a mwynau hanfodol a all gefnogi eich iechyd a'ch adferiad.

Fodd bynnag, ar gyfer iechyd cyffredinol, dylech geisio cyfyngu ar faint o siwgr ychwanegol rydych chi'n ei gael, fel diodydd ysgafn llawn siwgr, suropau, cacennau, bisgedi, siocled a losin.

Os byddaf yn dilyn y cyngor yn y canllaw hwn, oes angen i mi gymryd fy meddyginiaeth o hyd?

Er y gall gwneud newidiadau i'ch deiet a'chv ffordd o fyw helpu i leihau eich risg o ganser, nid oes unrhyw dystiolaeth y gall y newidiadau hyn wella cancer. Dyna pam mae'n bwysig iawn parhau i gymryd y feddyginiaeth y mae eich meddyg yn ei rhoi i chi. Os ydych chi'n meddwl nad oes angen meddyginiaeth arnoch mwyach, siaradwch â'ch meddyg bob amser – peidiwch â rhoi'r gorau i gymryd eich meddyginiaeth heb wirio'n gyntaf.

Fel gyda phob meddyginiaeth, mae'n bwysig gwirio a yw'n rhyngweithio ag unrhyw fwyd neu ddiod trwy ofyn i'ch tîm gofal cancer, fferylllydd neu drwy ddarllen y daflen wybodaeth i gleifion sy'n dod gyda'ch meddyginiaeth.

Oes angen i mi gymryd atchwanegiadau yn ystod fy nhriniaeth cancer?

Nid oes angen i'r rhan fwyaf o bobl gymryd atchwanegiadau, cyn belled â'u bod yn dilyn deiet iach a chytbwys. Gall rhai atchwanegiadau hyd yn oed wneud triniaethau cancer fel cemotherapi a radiotherapi yn llai effeithiol.

Y peth mwyaf diogel i'w wneud yw siarad â'ch tîm gofal cancer, a all wirio a yw unrhyw un o'ch lefelau fitamin neu fwynau yn isel. Efallai y gall rhai newidiadau bach i'ch deiet helpu i ddod â'r rhain yn ôl i ystod iach. Mewn rhai achosion, bydd eich meddyg neu ddeietegydd yn presgripsiynu atchwanegiad i chi i'w gymryd sy'n ddiogel ac na fydd yn cael effaith negyddol ar eich triniaeth.

Os ydych chi'n ystyried cymryd atchwanegiadau eraill neu feddyginiaethau homeopathig, naturiol neu lysieuol nad ydynt wedi'u presgripsiynu i chi, mae'n bwysig trafod hyn gyda'ch meddyg i wirio eu bod yn ddiogel i chi.



Am fwy o gwestiynau cyffredin, ewch i'r wefan yn wcrf.org/cancerfaqs

Oes gennych unrhyw gwestiynau eraill ynglŷn â maeth a chanser?

Nod ein Llinell Gymorth Cancer a Maeth, sy'n cael ei staffio gan ddeietegwyr oncoleg, yw darparu gwybodaeth faethol a chefnogaeth i bobl sy'n byw gyda chanser.

Ffoniwch **0300 102 2523** (AM DDIM o bob ffôn symudol a llinell dir) neu e-bostiwch helpline@wcrf.org gydag unrhyw gwestiynau sydd gennych chi.



NEWIDIADAU PWYSAU AC EGNU



Cefais ddiagnosis o ganser canser yr oesoffagws-gastrig yn gynnar yn y 2000au a chefais lawdriniaeth i gael gwared ar fy oesoffagws a thri chwarter fy stumog. Felly ar ôl hynny, fe wnaeth fy ffordd o fwyta ac anghenion maeth newid am byth.

Gyda stumog newydd, doeddwn i ddim yn gallu bwyta un prif bryd o fwyd, ond yn hytrach roeddwn i'n bwyta 5–6 dogn bach iawn bob dydd, a oedd yn gofyn i mi gynllunio fel nad oeddwn yn colli gormod o bwysau, ac i wneud yn siŵr bod fy nghorff yn cael y maetholion yr oeddwn eu hangen.

Wedi'r holl flynyddoedd, rwy'n dal i fwyta prydau bach ac yn yfed rhywbeth rhwng y rhain, ond mae'n hawdd hepgor pryd neu gael byrbrydau llai iach yn lle, ac rwy'n dal i ddioddef am hynny.

Mae mor bwysig eich bod chi'n bwyta'n dda – bydd yn helpu wrth gael unrhyw driniaeth canser i ymdopi â sgîl-ffeithiau a chefnogi eich lles.

Dave Chuter

COLLI PWYSAU


Gall cancer a thriniaethau cancer wneud bwyta'n anodd lle gallech beidio â theimlo'n eiddgar neu gallwch ei chael hi'n anodd bwyta digon. Gall hyn ei gwneud yn anoddach i'ch corff gael y maeth mae ei angen arno a gallech golli pwysau. Mae llawer o gleifion cancer yn profi hyn, felly nid ydych ar eich pen eich hun.

Beth allai helpu?

Y ffordd orau o arafu neu roi'r gorau i golli pwysau yw gwneud yn siŵr eich bod chi'n bwyta ac yn yfed cymaint o galoriau (egni) â phosibl. Pan fydd gennych ganser, efallai y byddwch hefyd yn colli cyhyrau, felly mae hefyd yn bwysig dewis bwydydd sy'n llawn protein i helpu'ch corff i gynnal cyhyrau ac atgyweirio meinwe.

Dyma rai awgrymiadau i'ch helpu i gael digon o galoriau a phrotein o'r hyn rydych chi'n ei fwyta a'i yfed bob dydd:

- Cael 5–6 pryd llai neu fyrbrydau trwy gydol y dydd a bwyta'ch pryd mwyaf pan fyddwch chi'n llwglyd.
- Cadw byrbrydau cyfleus gyda chi gartref a phan fyddwch chi allan, fel cymysgedd o ffrwythau a chnau, bariau cnau neu geirch, potiau iogwrt, wyau wedi'u berwi, ffyn caws a diodydd cyfnerthedig.
- Os yw bwyta'n anodd, newidiwch fyrbrydau am ddiodydd cyfnerthedig fel smwddis neu ysgytlaeth gyda llaeth cyflawn a phowdr llaeth sgim. Rhowch gynnig ar ein **smwddi Ffrwythau ar dudalen 37**.
- Coginio gydag olewau llysiau fel olew had rôp, olewydd a blodyn yr haul yn hytrach na stemio neu ferwi i gynyddu'r calorïau.
- Osgoi cael cawliau clir fel pryd o fwyd, fel broth cyw iâr neu gawl miso, gan y gallant eich llenwi heb roi llawer o galoriau i chi.
- Os yw yfed yn gwneud i chi deimlo'n llawn, ceisiwch beidio ag yfed wrth fwyta fel y gallwch chi fwyta cymaint â phosibl yn ystod prydau bwyd.



Dewis beth i'w fwyta

Bwyd braster uchel

Mae braster yn rhoi mwy o galorïau i chi nag unrhyw faetholion eraill. Os ydych chi'n colli pwysau, ceisiwch fwyta bwydydd gyda mwy o fraster i'ch helpu chi gael y calorïau sydd eu hangen arnoch.

Mae'n well bwyta bwyd gyda braster annirlawn, fel olewau llysiau, cnau, hadau, afocados a physgod (fel eog a macrell), a chyfyngu ar fwyd gyda braster dirlawn, fel creision, bisgedi, teisennau, siocled, cacennau a bwyd cyflym fel cyw iâr wedi'i ffrio a sgloodion.



Bwyd sy'n llawn protein

Mae colli cyhyrau yn sgîl-ffaith cyffredin o ganser. Mae angen protein ar eich corff i gadw'ch cyhyrau a'ch esgyrn yn iach ac yn gryf, ond hefyd i atgyweirio meinwe.

Mae bwydydd sy'n llawn protein yn cynnwys:

- pylsiau fel ffa, ffacbys a chorbys
- bwydydd soi fel tofu, darnau soi a llaeth soia
- cnau a hadau heb eu halltu
- wyau
- llaeth, caws ac iogwrt
- cyw iâr, twrci a physgod

Mae cig coch yn llawn protein hefyd, ond mae'n well ei fwyta'n llai aml.



Os ydych chi'n ei chael hi'n anodd cael digon o brotein o fwyd yn unig, siaradwch â'ch tîm gofal canser am gyngor a chefnogaeth wedi'i bersonoli.

Diodydd cyfnerthedig

Os nad ydych chi'n teimlo'n llwglyd ond angen calorïau a phrotein ychwanegol, gall cyfnerthu eich diodydd fod yn ddefnyddiol. Gall eich tîm gofal cancer bresgripsiynu diodydd cyfnerthedig parod os oes angen neu gallwch baratoi eich cymysgedd eich hun gartref.

I wneud eich cymysgedd cyfnerthedig eich hun:



Cyfunwch 2–4 llwy fwrdd o bowdr llaeth sgim (neu ddewis arall sy'n seiliedig ar blanhigion fel powdr pys) gyda 2¼ cwpan o laeth cyflawn (neu ddewis arall sy'n seiliedig ar blanhigion fel llaeth ceirch cyflawn).

Storiwch ef yn yr oergell a'i ddefnyddio mewn diodydd poeth, smwddis, ysgythaethau, grawnfwyd, uwd neu ar gyfer coginio cyffredinol.



Canllawiau ar grwpiau bwyd penodol

Cig coch a chig wedi'i brosesu

Mae cig coch (fel cig eidion, porc, cig llo, gafr a chig oen) yn ffynhonnell dda o brotein a maetholion pwysig fel haearn a fitamin B12, felly gall fod yn rhan o ddeiet iach, cytbwys.

Fodd bynnag, mae gennym dystiolaeth wyddonol gref bod bwyta cig wedi'i brosesu a gormod o gig coch yn cynyddu'r risg o ganser y coluddyn. Am y rheswm hwnnw, rydym yn argymhell bwyta dim mwy na thri dogn o gig coch yr wythnos, a bwyta dim ond ychydig o gig wedi'i brosesu (fel cig moch a ham).

Cynnyrch llaeth

Gall cynnyrch llaeth fel llaeth, caws ac iogwrt fod yn rhan o ddeiet iach, cytbwys gan eu bod yn ffynhonnell dda o galorïau, protein a mwynau hanfodol fel calsiwm.

Mae'n well cael cynhyrchion llaeth fel menyn a ghee yn llai aml oherwydd eu bod yn arbennig o uchel mewn braster dirlawn. Er mwyn lleihau faint o fraster dirlawn rydych chi'n ei gael tra'n dal i gael digon o galorïau, gallwch ddisodli menyn neu ghee gydag olewau llysiau a thaeniadau.

Mae llawer o ddewisiadau llaeth amgen sy'n seiliedig ar blanhigion fel diodydd ceirch, almon a reis yn isel mewn caloriâu a phrotein. Gall eu cyfnerthu â phowdr protein fel pys, hadau llin, reis brown neu fathau soia gynyddu faint o brotein rydych chi'n ei gael.

Efallai y bydd llawer o ddewisiadau llaeth amgen sy'n seiliedig ar blanhigion yn brin o faetholion fel calsiwm hefyd, felly dewiswch fersiynau wedi'u cyfnerthu â fitaminau a mwynau.



Os ydych chi'n dal i golli pwysau, dylai bwyta digon o galorïau a phrotein fod yn flaenoriaeth, felly gall dewis cynhyrchion llaeth braster uwch fod yn ddefnyddiol am gyfnod.

Ffrwythau a llysiau

Mae ffrwythau a llysiau yn darparu ystod o fitaminau, mwynau a ffibr hanfodol sy'n dda i'ch iechyd cyffredinol, ond oherwydd eu bod yn ffynhonnell dda o ffibr, gallant wneud i chi deimlo'n llawn tra'n peidio â rhoi llawer o galorïau i chi.


Mae'n bwysig eich bod chi'n parhau i fwyta ffrwythau a llysiau, ond dewiswch opsiynau caloriâu uwch fel bananas, ffrwythau sych, olifau, corn, pys, afocados a thatws melys. Gallwch hefyd goginio llysiau gydag olew llysiau i gynyddu'r caloriâu, a gweini ffrwythau gydag iogwrt naturiol braster llawn gyda chnau a hadau ar ei ben.



Ychwanegu calorïau a phrotein at brydau bwyd

Grawnfwydydd brecwast, uwd a phwdinau:

- cnau a hadau heb eu halltu
- banana neu ffrwythau sych
- llaeth cyfan neu gyfnerthedig (neu ddewisiadau amgen sy'n seiliedig ar blanhigion)
- iogwrt naturiol braster llawn



Saladau:

- afocado, corn neu datws
- cnau a hadau heb eu halltu
- pylsiau (fel ffa, ffacbys a chorbys)
- hwmws neu tahini
- tofu, tempeh, darnau soi neu falafel
- caws fel cheddar neu mozzarella
- cyw iâr, twrci, pysgod olewog (fel eog) neu wyau wedi'u berwi'n galed
- dresin wedi'u seilio ar olew neu iogwrt
- croutons




Brechdanau, wrapiau a chraceri:

- taeniadau fel menyn cnau, hwmwss, guacamole neu gaws hufen
- caws colfran
- ffa pob â llai o siwgr a halen
- dhal neu datws cyri
- wyau wedi'u berwi neu wyau gyda mayonnaise
- cyw iâr, twrci neu bysgod tun



Caserolau, cyri, stiwiâu, sawsiau a chawliau:

- pylsiau (fel ffa, ffacbys a chorbys)
- tatws, pannas, corn neu bys
- tofu, tempeh neu ddarnau soi
- llaeth cyfan neu gyfnerthedig (neu ddewisiadau amgen sy'n seiliedig ar blanhigion)
- iogwrt naturiol braster llawn neu crème fraîche
- cyw iâr, twrci neu bysgod
- mwy o olew wrth goginio
- gweini gyda reis brown, gwenith cyflawn
- bara neu basta gwenith cyflawn



Byrbrydau i roi cynnig arnynt:

- cnau a hadau heb eu halltu
- bariau cnau neu geirch
- ffyn llysiau gyda guacamole, hwmws neu raita
- iogwrt naturiol braster llawn gyda granola, banana neu ffrwythau sych
- smwddi ffrwythau gyda llaeth cyflawn neu bowdr llaeth sgim
- pitta gwenith cyflawn gyda chaws colfran, menyn cnau, banana wedi'i sleisio
- wy wedi'i ferwi'n galed, ffa pob neu bysgod tun
- samosas wedi'u pobi neu akara wedi'i bobi



Os ydych wedi gwneud newidiadau i'ch deiet ond yn parhau i gollu pwysau neu na allwch roi pwysau arno, gofynnwch i'ch tîm gofal cancer am gefnogaeth. Yn y cyfamser, blaenoriaethwch fwydydd calorïau uchel a llawn protein.

Eich rhestr siopa

Bwyd	Fesul dogn	
	Calorïau uchel (bob dogn)	Protein uchel (bob dogn)
Pylsiau fel ffachbys, corbys, ffa soia, ffa coch, ffa du		✓
Cnau, menyn cnau, hadau, hwmws, tahini	✓	✓
Bananas, ffrwythau sych, afocado, tatws, iam, bananas gwyrdd, pannas	✓	
Olewau a thaeniadau had rêp, olewydd, blodyn yr haul a llysiau eraill	✓	
Tofu, tempeh, darnau soi, Quorn		✓
Llaeth ac iogwrt braster llawn	✓	✓
Llaeth sgim neu hanner sgim, powdr llaeth sgim, iogwrt braster is, diodydd soia		✓
Caws colfran, ricotta		✓
Caws hufen a chaws braster llawn fel paneer, halloumi, cheddar, mozzarella	✓	✓
Wyau		✓
Dofednod fel cyw iâr, twrci, hwyaden		✓
Pysgod nad ydynt yn olewog fel penfras, hadog, tilapia		✓
Pysgod olewog fel eog, mecryll, cipiwr, sardîns	✓	✓
Cig coch fel cig eidion, porc, cig llo, gafr, cig oen – bwyta'n llai aml	✓	✓

Hwmws pupur coch wedi'i rostio gyda pita gwenith cyflawn



Rysâit byrbryd | Digon i 12

CYNHWYSION

100g pupur coch wedi'i rostio,
wedi'i dorri'n fân

1 x 400g can o ffacbys, wedi'i
ddraenio a'i rinsio

25g tahini (past sesame)

1 ewin garlleg, wedi'i
dorri'n fân

2 llwy fwrdd o sudd lemwn
wedi'i wasgu'n ffres (i flasau)


½ llwy de o gwmin wedi'i falu

Pupur du wedi'i falu'n ffres

6 bara pita gwenith cyflawn

DULL

1. Cyfunwch yr holl gynhwysion ac eithrio'r pupur du. Proseswch y gymysgedd nes ei fod yn llyfn.
2. Ychwanegwch bupur i flasau a'i weini gyda darnau o fara pita gwenith cyflawn wedi'u tostio.



Caloriau
149

Protein
6.3g

Ffibr
4.2g

Braster
2.2g

Siwgr
1.2g

Halen
0.48g

5 y diwrnod
< 1

Dadansoddiad maethol (fesul dogn)

Uwd banana gyda granola



Digon i 2

CYNHWYSION

Ar gyfer y granola:

10g o gnau cashiwr
heb halen

10g o gnau daear
heb halen

60g o geirch
wedi'u rholio

2 llwy de o hadau sesame

½ llwy de o
bowdr sinamon

1 llwy de o bast fanila

3 llwy de o fêl/suop
masarn

1 llwy de o olew olewydd

1 banana, wedi'i sleisio

Tahini (dewisol)

Ar gyfer yr uwd:

60g o geirch
wedi'u rholio

200ml o laeth
sgim/llaeth ceirch

1 llwy de o fêl

DULL

1. Cynheswch y ffwrn ymlaen llaw i 200°C/Ffan 180°C.
2. Mewn powlen fach, cymysgwch y cnau cashiwr, cnau daear, 60g o geirch wedi'i rholio, sesame, sinamon, fanila, mêl (neu suop masarn) ac olew. Cymysgwch yn dda nes bod y gymysgedd ychydig yn ludiog ac yn clystyru gyda'i gilydd.
3. Rhowch ddalen o bapur pobi ar dun pobi a lledaenwch y gymysgedd granola arno. Rhowch y gymysgedd i mewn i'r ffwrn am 8–10 munud nes ei fod yn frown. Peidiwch â phoeni os yw'r gymysgedd ychydig yn feddal pan fyddwch chi'n ei dynnu allan; bydd yn caledu wrth iddo oeri.
4. I wneud yr uwd, ychwanegwch y 60g sy'n weddill o geirch wedi'u rholio, laeth a mêl mewn sosban a'i ferwi'n ysgafn. Unwaith y bydd yr uwd wedi tewychu fel yr ydych yn ei hoffi, diffoddwch y gwres a'i weini mewn powlenni. Ychwanegwch fanana wedi'i sleisio, ychydig o'r granola (a chwistrell o tahini os ydych chi'n ei ddefnyddio).

Caloriau
447

Protein
14.2g

Ffibr
6.3g

Braster
13.2g

Siwgr
21.9g

Halen
0.12g

5 y diwrnod
0.5

Dadansoddiad maethol (fesul dogn)



AWGRYM GWYCH

I gynyddu'r calorïau a'r protein, cyfnewidiwch laeth sgim gyda llaeth cyflawn neu laeth cyfnerthedig, neu ychwanegwch gnau a hadau ychwanegol fel pecans, cnau Ffrengig, hadau llin a hadau chia.

Enchiladas ffa coch



Digon i 4

CYNHWYSION

1 llwy fwrdd o olew llysiau

1 winwnsyn, wedi'i dorri'n giwbiau

1 pupur coch, wedi'i dorri'n sribedi

1 ewin garlleg, wedi'i falu

½ llwy de powdr tsili poeth

1 llwy de o gwmin wedi'i falu

Tun 400g o domatos wedi torri'n fân

Tun 400g o ffa coch, wedi'i ddraenio a'i olchi

8 tortila gwenith cyflawn

1 winwnsyn coch, wedi'i dorri

2 domato, wedi'u torri

80g letys, wedi'i dorri'n sribedi

50g o gaws Cheddar, wedi'i gratio



Uchel mewn ffibr

DULL

I wneud y saws tomato:

1. Cynheswch yr olew mewn padell fawr dros wres canolig.
2. Ychwanegwch yr winwns a'r pupur coch a choginiwch nes eu bod yn dechrau meddal. Yna ychwanegwch y garlleg a choginiwch am funud arall.
3. Ychwanegwch y powdr tsili poeth a'r cwmin wedi'i falu a'u coginio am 2 funud arall.
4. Ychwanegwch y tomatos o'r tun a'r ffa coch a choginiwch am 2–3 munud nes bod y ffa coch wedi'u cynhesu.

I roi yr enchiladas at ei gilydd:

1. Cynheswch y tortilas yn unol â chyfarwyddiadau'r pecyn.
2. Agorwch y tortila cyntaf a lledaenwch rywfaint o'r saws tomato ar draws canol y tortila.
3. Gwasgarwch rywfaint o winwnsyn coch, tomato, letys a chaws.
4. Plygwch y tortila ac ailadroddwch gyda gweddill y tortilas. Gweinwch yn syth.

Caloriau
505

Protein
22g

Ffibr
17g

Braster
12g

Siwgr
15g

Halen
1.1g

5 y diwrnod
4.5

Dadansoddiad maethol (fesul dogyn)



AWGRYM GWYCH

I gynyddu nifer calorïau'r pryd o fwyd hwn, gweinwch gyda hufen sur neu guacamole.

RHOI PWYSAU YMLAEN

Mae rhoi pwysau ymlaen yn sgîl-effaith cyffredin o ganser neu driniaeth canser, yn enwedig os ydych chi'n derbyn therapi hormonau ar gyfer canser y fron neu'r prostad, neu os ydych chi wedi cael steroidau a all wneud i chi deimlo'n fwy llwglyd nag arfer. Efallai y bydd rhesymau eraill dros roi pwysau ymlaen hefyd, fel newidiadau i'ch deiet fel bwyta mwy oherwydd straen, neu fod yn llai egnïol oherwydd blinder.



Gallai rhoi pwysau ymlaen yn gyflym hefyd olygu bod eich corff yn dal hylif. Os ydych chi'n sylwi ar gynnydd pwysau sydyn, siaradwch â'ch tîm gofal canser fel y gallant ddod o hyd i'r rheswm.

Beth all helpu?

- Bwyteuoch brydau llai wedi'u gwasgaru trwy gydol y dydd. Byddwch yn ymwybodol o feintiau eich dognau ac arhoswch ychydig funudau cyn mynd yn ôl am fwy.
 - Bwyteuoch wrth y bwrdd heb unrhyw beth i dynnu eich sylw, fel sgrolïo ar eich ffôn, fel y gallwch gymryd eich amser a phheidio â bwyta'n rhy gyflym.
 - Defnyddiwch ddulliau coginio iachach fel pobi, stemio a berwi yn hytrach na ffrio.
 - Os ydych chi'n teimlo'r awydd i fwyta byrbrydau, dewiswch fwydydd calorïau isel fel ffrwythau, ffyn llysïau wedi'u torri gyda hwmws braster isel, iogwrt naturiol braster is neu fara gwenith cyflawn gyda chaws braster isel.
 - Ceisiwch sicrhau gweithgarwch corfforol rheolaidd, fel cerdded, i'ch helpu chi gynnal pwysau iach ac ymdopi â blinder.
- Ewch i'r adran **Cadw'n Heini** ar dudalen 54 i ddarganfod mwy am fod yn actif yn gorfforol yn ystod triniaeth.



Dewis beth i'w fwyta

- Llenwch eich plât â llysiau, ffrwythau, cnau, hadau, pylsiau (fel ffa, ffacbys a chorbys) a grawn cyflawn (fel reis brown, bara gwenith cyflawn a phasta gwenith cyflawn) – mae'r bwydydd hyn yn ffynhonnell dda o ffibr a all eich helpu i deimlo'n llawn ar lai o galorïau.



Os ydych chi wedi cael rhan o'ch coluddyn wedi'i dynnu, siaradwch â'ch tîm gofal canser cyn ychwanegu bwydydd sy'n llawn ffibr i'ch deiet bob dydd.

- Dewiswch gynhyrchion llaeth braster isel fel llaeth hanner sgim, caws braster isel ac iogwrt naturiol braster isel.
- Defnyddiwch olewau llysiau fel olewau had rôp, olewydd neu flodyn yr haul yn lle menyn neu ghee ar gyfer coginio.
- Yfwch ddigon o ddŵr, sgwosh heb siwgr a the a choffi heb ei felysu. Osgowch alcohol, ac os ydych chi'n hoffi diodydd ysgafn, dewiswch opsiynau heb siwgr.
- Cyfyngwch ar fwyd brys fel cyw iâr wedi'i ffrio a sglodion, a bwyd a diodydd sy'n uchel mewn braster, siwgr a halen fel creision, bisgedi, teisennau, siocled, cacen, melysion a diodydd ysgafn fel cola. Osgowch ychwanegu siwgr ychwanegol at ddioddydd fel te a bwyd fel grawnfwyd brecwast neu uwd.
- Rhowch flas i'ch bwyd gyda pherlysiau, sbeisys, garlleg a sinsir yn hytrach na defnyddio gormod o halen. Gwiriwch y label maeth ar fwyd wedi'i ragbexcynnu a dewiswch opsiynau halen isel.

Penfras gyda brwsion garam masala



Digon i 2

CYNHWYSION

2 ffled o benfras

40g o friwsion bara ffres (yn ddefnyddiol gwenith cyflawn)

1 llwy de o garam masala

1 lemwn, croen yn unig

Pupur du wedi'i falu'n ffres

Ar gyfer y salad:

1 ciwcymbr bach, wedi'i sleisio'n denau iawn

½ llwy de o halen

Llund llaw bach o dil ffres, wedi'i dorri

4 llwy fwrdd finegr gwin gwyn

1 llwy de o ddarnau mân o tsili

2 ewin garlleg, wedi'i dorri'n fân

1 lemwn, wedi'i sleisio'n ddarnau trwchus



Uchel mewn protein

DULL

1. Cynheswch y ffwrn ymlaen llaw i 180°C/Ffan 160°C.
2. Rhewch y ddwy ffled penfras ar dun pobi. Cymysgwch y briwsion bara gyda'r garam masala, croen lemwn a swm hael o bupur du. Rhewch y gymysgedd briwsion bara ar y penfras a'i bobi am 10 munud, nes bod y pysgod wedi'u coginio drwodd a bod y briwsion yn greisionllyd.
3. Yn y cyfamser, sleisiwch y ciwcymbr yn denau gyda mandolin os yn bosibl neu mor denau â phosibl gyda chyllell neu piliwr llysiau. Cymysgwch gyda'r halen a'i roi i un ochr am 5 munud.
4. Ar ôl 5 munud, rinsiwch y ciwcymbr yn dda mewn dŵr oer. Rhewch ef mewn powlen gyda'r dill, finegr gwin gwyn, tsili a garlleg. Cymysgwch bopeth gyda'i gilydd a'i weini ar unwaith gyda'r penfras a'r darnau o lemwn i'w gwasgu drosto.

Caloriau
243

Protein
30g

Ffibr
5.3g

Braster
2.1g

Siwgr
6.3g

Halen
0.9g

5 y diwrnod
<1

Dadansoddiad maethol (fesul dogyn)



BLINDER

Mae blinder yn gyffredin mewn pobl sydd â chanser – ac mae'n fwy na'r teimlad arferol o fod yn gysglyd. Efallai y byddwch chi'n teimlo'n flinedig iawn neu'n flinedig y rhan fwyaf o'r amser. Gall blinder gael effaith fawr ar eich bywyd bob dydd, gan wneud i chi deimlo diffyg egni'n gorfforol ac yn feddyliol, a'ch gadael heb fawr o egni neu gymhelliant.

Gall blinder gael ei achosi gan:

- effaith canser a thriniaethau canser ar eich corff
- sgîl-ffeithiau rhai meddyginiaethau
- problemau gyda bwyta ac yfed digon
- anawsterau cysgu
- gorbryder ac iselder
- lefelau isel o gelloedd coch y gwaed (anaemia)
- symptomau a sgîl-ffeithiau eraill, fel poen neu ddiffyg anadl



Os yw'ch blinder yn sgîl-ffaith bod yn anemig, bydd eich meddyg yn presgripsiynu meddyginiaeth a fydd yn helpu. Os ydych chi'n pryderu, siaradwch â'ch tîm gofal canser.



Beth all helpu?

- Cadwch fyrbrydau cyfleus gyda chi gartref a phan fyddwch chi allan, fel cymysgedd ffrwythau a chnau, bariau cnau neu geirch, potiau iogwrt, wyau wedi'u berwi, ffyn caws a diodydd cyfnerthedig.
- Am gyfnod, dibynnwch ar brydau a byrbrydau parod o archfarchnadoedd nad oes angen llawer o baratoi.
- Mynnwch help gan deulu neu ffrindiau a all baratoi prydau bwyd i chi eu rhewi neu wneud eich siopa wythnosol i chi.
- Gallwch siopa ar-lein os ydych chi'n rhy flinedig i fynd allan. Mae yna wasanaethau fel Meals on Wheels sy'n gallu dosbarthu prydau wedi'u paratoi i'ch drws – gofynnwch i'ch tîm gofal canser eich helpu chi ddod o hyd i un yn eich ardal.
- Ceisiwch gadw mor actif ag y gallwch, gan fod llawer o ymchwil i ddangos y gall gwneud rhywfaint o weithgaredd corfforol ysgafn i gymedrol fel cerdded cyflym bob dydd helpu gwella blinder a gwneud i chi deimlo'n fwy egniol. Ewch i'r adran **Cadw'n Heini** ar dudalen 54 i ddarganfod mwy am fod yn actif yn gorfforol yn ystod triniaeth.
- Bwytwch ddiet iach, cytbwys llawn llysiau, ffrwythau, grawn cyflawn (fel reis brown, bara gwenith cyflawn a phasta gwenith cyflawn) a phylsiau (fel ffa, ffacbys a chorbys).
- Yfwrch ddigon o hylif fel dŵr, llaeth, sgwosh heb siwgr, sudd wedi'i wanhau neu de a choffi heb ei felysu – ceisiwch yfed o leiaf 8–10 gwydraid y dydd.



Os ydych chi'n colli pwysau ac na allwch ei roi yn ôl ymlaen, siaradwch â'ch tîm gofal canser gan y gallant roi cyngor a chymorth personol i chi. Yn y cyfamser, defnyddiwch ein cynghorion a'n ryseitiau yn y rhan **Colli Pwysau** ar dudalen 10 i'ch helpu i wneud y gorau o'ch prydau.



Fel rhywun sydd wedi cael cancer y fron, rydw i wedi dysgu rhoi fy iechyd a'm lles yn gyntaf. Ar ôl llawdriniaeth, fwnes i wedi wynebu misoedd o flinder. Mae yfed digon o ddŵr, bwyta deiet iach, cytbwys, peidio â chynnwys siwgr ychwanegol, a thorri alcohol allan wedi fy helpu i atal diffyg egni a diflastod.

Mae gweithgaredd ysgafn ac awyr iach fel teithiau cerdded natur, ioga a myfyrdod hefyd wedi gweithio rhyfeddodau wrth gynyddu fy lefelau egni a'm synnwyr o les. Ond yn bwysicaf oll, gwrandewais ar fy nghorff. Pan oeddwn i'n teimlo'n rhy flinedig, roeddwn i'n gorffwys pe bawn i angen, hyd yn oed os oedd yn golygu cymryd seibiant neu gyntun. Roedd yn ymwneud â chadw meddylfryd cadarnhaol a gofalu amdanaf fy fy hun, un cam ar y tro.

Julia Carta



Fflapjacs banana a menyn cnau daear



Rysáit byrbryd | Digon i 12

CYNHWYSION

3 banana aeddfed

200g o geirch

50g o ffrwythau
sych, wedi'u torri'n
ddarnau bach os
oes angen

60g o hadau

2 llwy fwrdd
menyn cnau daear
llyfn

2 llwy fwrdd
taeniad blodyn
haul

1 llwy fwrdd o fêl

1 llwy de o
sinamon

DULL

1. Cynheswch y ffwrn ymlaen llaw i 180°C/Ffan 160°C. Leiniwch dun pobi gyda phapur pobi.
2. Mewn powlen fawr, stwnswch y bananas yn bâst llyfn. Ychwanegwch y ceirch, y ffrwythau sych a'r hadau; a chymysgu'n drylwyr.
3. Cynheswch y menyn cnau daear, y taeniad blodyn haul, y mêl a'r sinamon mewn sosban dros wres isel am tua 2 funud neu nes bod y taeniad wedi toddi, gan droi'n barhaus.
4. Arllwyswch y cymysgedd wedi'i doddi dros y banana a'r ceirch; a chymysgu'n drylwyr.
5. Trosglwyddwch y cymysgedd i'r dun pobi gyda'r papur a'i daenu'n gyfartal.
6. Pobwch yn y ffwrn am 35–40 munud nes ei fod wedi'i goginio drwodd ac yn frown euraidd.
7. Trowch allan yn ofalus ar rac oeri a gadewch i oeri cyn torri'n 12 sgwâr cyfartal.
8. Gweinwch neu storiwch mewn cynhwysydd wedi'i selio – bwytwch o fewn 5 diwrnod. Fel arall, rhewch a defnyddio o fewn 3 mis.

Calorïau
169

Protein
4.3g

Ffibr
2.1g

Braster
7.1g

Siwgr
9g

Halen
0.1g

5 y diwrnod
< 0.5

Dadansoddiad maethol (fesul dogyn)

Moussaka cyw iâr



Digon i 4

CYNHWYSION

300g reis brown

1 llwy fwrdd o

olew llysiau

1 winwnsyn, wedi'i
dorri'n fân

2 moron canolig, wedi'u
torri'n fân

1 ewin garleg, wedi'i falu

250g mins cyw iâr

braster isel (fel arfer
5–6% o fraster)

150g o bupurau wedi'u
sleisio, wedi'u rhewi

Tun 400g o domatos
wedi torri'n fân

Tun 400g o ffa cannellini,
wedi'i ddraenio a'i rinsio

3 llwy de oregano sych

1 llwy de mintys sych

Pupur du wedi'i
falu'n ffres

250ml iogwrt arddull

Groeg braster isel

2 wy

DULL

1. Cynheswch y ffwrn ymlaen llaw i 200°C/Ffan 180°C.
2. Paratowch y reis grawn cyflawn yn unol â chyfarwyddiadau'r pecyn.
3. Cynheswch yr olew mewn padell fawr dros wres canolig. Coginiwch y winwns a'r moron nes iddynt ddechrau meddal. Yna ychwanegwch y garleg a choginiwch am funud arall.
4. Ychwanegwch y mins cyw iâr, gan droi'n gyson a thorri'n ddarnau bach gyda llwy bren, nes ei fod wedi'i goginio.
5. Ychwanegwch y pupurau wedi'u rhewi, tomatos o'r tun, ffa cannellini, 2 llwy de o'r oregano sych, mintys sych a phupur du wedi'i falu'n ffres. Dewch â'r cymysgedd i ferwi a'i fudferwi ar wres isel am ychydig funudau nes bod y cynhwysion i gyd wedi'u cynhesu a'r saws wedi tewychu ychydig.
6. Rhowch y saws mewn dysgl sy'n addas i'r ffwrn.
7. Mewn powlen ar wahân, cymysgwch yr iogwrt, yr wyau ac 1 llwy de o'r perlysiâu cymysg. Rhowch y saws dros ben y cymysgedd cyw iâr i'w orchuddio a'i roi yn y ffwrn am 15–20 munud nes bod y top wedi setlo ac wedi mynd yn frown euraidd.
8. Gweinwch gyda'r reis.



Uchel mewn protein



AWGRYM GWYCH

I gynyddu'r calorïau yn y pryd hwn, defnyddiwch iogwrt braster llawn yn lle hynny.

Calorïau
571

Protein
36g

Ffibr
12g

Braster
11g

Siwgr
16g

Halen
0.6g

5 y diwrnod
3.5

Dadansoddiad maethol (fesul dogn)

NEWIDIADAU I'R GEG A BLAS



DIM AWYDD BWYTA

Efallai na fydd gennych chi awydd bwyta am lawer o resymau, gan gynnwys eich triniaeth canser, hwyliau isel a gorbryder, neu sgîl-effeithiau eraill fel newidiadau blas a theimlo'n flinedig neu'n sâl a all wneud i chi deimlo'n llai llwglyd.

Beth all helpu?

- Ceisiwch gael 5–6 pryd neu fyrbrydau llai trwy gydol y dydd a bwyta'ch pryd mwyaf pan fyddwch chi'n llwglyd i sicrhau bod eich corff yn cael digon o galoriau a phrotein.
- Os yw bwyta'n anodd, cyfnewidiwch fyrbrydau am ddiodydd cyfnerthedig fel smwddis neu ysgytlaeth gyda llaeth cyflawn a phowdr llaeth sgim. Rhewch gynnig ar ein **smwddi Ffrwythau** ar dudalen 37.
- Sicrhewch fod gennych fyrbrydau a phrydau bwyd wedi'u paratoi ymlaen, yn barod ar gyfer pryd bynnag y byddwch chi'n teimlo fel bwyta. Gallech hefyd ofyn i deulu a ffrindiau wneud a rhewi eich hoff brydau i chi eu cynhesu'n hawdd.
- Gwnewch eich amseroedd bwyta yn dawel ac yn amser ymlacio – dewch o hyd i le tawel, trowch eich hoff gerddoriaeth ymlaen neu gael ffrindiau a theulu draw i sgwrsio â nhw.

- Osgowch goginio gyda bwydydd arogl cryf a allai wneud i chi golli eich awydd am fwyd. Os yw arogleuon bwyd poeth yn gwneud i chi deimlo'n sâl, gallech roi cynnig ar fyrbrydau oer fel caws a chraceri.
- Ceisiwch beidio ag yfed wrth fwyta os yw yfed yn gwneud i chi deimlo'n llawn, fel y gallwch chi fwyta cymaint â phosibl yn ystod prydau bwyd.
- Eisteddwch yn syth pan fyddwch chi'n bwyta a chnoi eich bwyd yn dda. Os ydych chi'n teimlo'n sâl neu'n llawn, camwch allan am awyr iach a cheisiwch fwyta ychydig yn hwyrach.
- Gallai gweithgaredd ysgafn, fel cerdded, helpu annog eich awydd am fwyd.
- Os ydych chi'n ysmegu, ceisiwch leihau cymaint â phosibl, gan y gall ysmegu wneud i chi golli eich awydd i fwyta. Gofynnwch i'ch tîm gofal cancer am gymorth os ydych chi am roi'r gorau i ysmegu.



Gall helpu i siarad â theulu a ffrindiau am eich newid mewn awydd bwyta a rhoi gwybod iddynt beth sy'n eich helpu chi. Os ydych chi'n teimlo'n orbryderus neu'n bryderus, siaradwch â rhywun rydych chi'n ymddiried ynddo neu ceisiwch gael cefnogaeth gan eich tîm gofal cancer.



Roedd colli fy awydd i fwyta yn sgîl-effaith go iawn a phryderus o fod ar driniaeth ar gyfer cancer y fron. Fe wnaeth cawl Dhal newid pethau i mi – roeddwn i'n defnyddio pys hollt ar gyfer proteinau planhigion a ffibr, tatws ar gyfer carbohydradau a moron ar gyfer fitaminau. Yna ychwanegais y sbeisys i mewn am flas. Yn raddol dychwelodd fy awydd am fwyd.

Tricia George





Mae colli'ch awydd i fwyta yn golygu y gallech chi hefyd ddechrau colli pwysau. Os ydych chi'n colli pwysau ac na allwch ei roi yn ôl, siaradwch â'ch tîm gofal canser gan y gallant roi cyngor a chefnogaeth wedi'i bersonoli i chi. Yn y cyfamser, defnyddiwch ein hawgrymiadau a'n ryseitiau yn yr adran **Colli Pwysau** ar dudalen 10 i'ch helpu chi gael y gorau o'ch prydau bwyd.



